
5ED O FEDI

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol



## Wythnos yma

Croeso nol i bawb i dymor yr Hydref ac rydym yn edrych ymlaen at flwyddyn brysur a chyffrous arall yn ysgol Treganna! Croeso arbennig i'r plant Meithrin a Derbyn a'r disgyblion newydd sydd wedi dechrau yn yr ysgol yr wythnos hon. Mae pawb wedi ymgartrefu yn wych ac mae wedi bod yn hyfryd croesawu holl deulu Treganna nol i'r ysgol.

Mae dyddiadau'r tymor wedi eu danfon atoch heddiw gan gynnwys manylion am ddyddiadau HMS y flwyddyn. Byddwn yn ychwanegu at y dyddiadau yma yn ystod y tymor ac yn cadarnhau yn union pa ddiwrnodau fydd sioeau Nadolig mis Rhagfyr.

Byddwn hefyd yn danfon gohebiaeth atoch fel rhieni bob dydd Mawrth a dydd Gwener. Ar ddydd Mawrth byddwn yn danfon y Cyswllt Wythnosol atoch ar ap Group Ed/ e-bost. Yn y Cyswllt Wythnosol mae gwybodaeth benodol am drefniadau/ digwyddiadau dosbarth eich plentyn. Ar ddydd Gwener byddwn yn danfon y Cylchlythyr Wythnosol atoch ar Group Ed/ e bost. Yn y cylchlythyr rydym yn dathlu llwyddiannau'r wythnos ac yn sôn am faterion/ digwyddiadau ysgol gyfan.

Os oes gennych bryder neu am gysylltu gydag athrawes/ athro dosbarth eich plentyn neu aelod o'r tîm arwain, gofynnwn yn garedig i chi ffonio'r dderbynfa neu ddanfon e-bost (ysgoltreganna@cardiff.gov.uk) Byddwn yn ymateb cyn gynted ag y bod modd.

Edrychwn ymlaen yn fawr at gydweithio gyda chi a'ch plentyn eleni.

## Calendr

**Nosweithiau Agored**

**Wythnos yn cychwyn y 15fed o Fedi**

**Croeso i Dreganna (Digwyddiad y GRhA i rieni newydd)**

**Nos Iau y 18fed o Fedi**

# Sesiynau Cwrdd â'r Athro

Mae sesiynau Cwrdd â'r Athro wedi eu trefnu ar gyfer mis yma. Bwriad y sesiynau yma yw rhoi cyfle i rieni/ gwarcheidwaid i gyfarfod athrawon y dosbarth, i holi cwestiynau ac i dderbyn gwybodaeth am drefniadau'r dosbarth. Oherwydd diffyg lle a goruchwyliaeth, gofynnwn yn garedig i rieni yn unig fynychu'r sesiynau yma. A fyddai modd i chi nodi ar y ffurflen yma os fyddwch yn mynychu'r cyfarfod? Diolch yn fawr.

https://forms.gle/Y6eNKojxV29E37HT9

| 15/9/25 | Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 |
|---|---|
| 16/9/25 | Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3 |
| 17/9/25 | Blwyddyn 4 a Blwyddyn 5 |
| 18/9/25 | Blwyddyn 6 |

# Dillad Ymarfer Corff

Ar ddechrau'r tymor hoffem ofyn yn garedig i chi sicrhau bod eich plant yn gwisgo gwisg ymarfer corff i ddod i'r ysgol ar ddiwrnodau Addysg Gorfforol y dosbarth. Mae'r wisg yma yn cynnwys trowsus ymarfer corff/ leggings du, crys T cymuned a siwmper ysgol Treganna. Ni fyddwn yn caniatáu leggings a siwmperi lliwgar ar ddiwrnodau ymarfer corff. Diolch yn fawr.

| Meithrin | Dydd Llun |
|---|---|
| Derbyn | Dydd Mawrth a Dydd Iau |
| Bl 1 | Dydd Mawrth a Dydd Iau |
| Bl 2 | Dydd Mercher a Dydd Iau |
| Bl 3 | Dydd Llun a Dydd Mercher |
| Bl 4 | Dydd Mercher a Dydd Iau |
| Bl 5 | Dydd Llun a Dydd Mawrth |
| Bl 6 | Dydd Mawrth a Dydd Mercher |




# Patrwm Iaith

**Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos**

Ga i os gwelwch yn dda?

**Her**

Oes modd i mi gael…os gwelwch yn dda?

A fyddai'n bosib…?

**Testun trafod yr wythnos**

Pe bai gen i dri dymuniad…

**Cân yr wythnos**

Gwilym - Catalunya

**Idiom yr wythnos**

Heb siw na miw

# Kidslingo Caerdydd

Mae cwmni Kidslingo Caerdydd yn hapus iawn i ddechrau dau glwb ar ôl ysgol Sbaeneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Treganna ar gyfer Blynyddoedd 3 a 4 yn Nhymor yr Hydref.

**BLWYDDYN 3 yn unig**
DYDD LLUN 3.30 – 4.30 Cliciwch yma i archebu lle cyn gynted â phosib. Fe fydd y sesiwn gyntaf ar Ddydd Llun 29/9/25
**BLWYDDYN 4 yn unig**
DYDD MERCHER 3.30 – 4.30 Cliciwch yma i archebu lle cyn gynted â phosib. Fe fydd y sesiwn gyntaf ar Ddydd Mercher 1/10/25

£8.50 fesul gwers ( + 2% cost archebu) ac mae'n rhaid archebu fesul tymor os gwelwch yn dda.
Mae llefydd yn gyfyngedig ac yn cael eu cynnig i'r cyntaf sy'n cofrestru.

Gweler y poster am fwy o fanylion. Os oes gennych unrhyw gwestiynau plîs peidiwch cysylltu gyda'r ysgol gan ei fod yn cael ei redeg gan gwmni allanol Kidslingo, cysylltwch ar yr ebost isod - audrey.hancock@kidslingo.co.uk

